




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Cynnig i ddiwygio:

**Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil  
am Arian a Hawliadau Meddiannu Ar-lein  
ac ar Bapur**

Mae'r ymgynghoriad yn dechrau ar 20 Tachwedd 2020

Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 30 Rhagfyr 2020







Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Cynnig i ddiwygio**

Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a  
Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar Bapur

Ymgynghoriad a grëwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar  
<https://consult.justice.gov.uk/>

# Ynghylch yr ymgynghoriad

- Ar gyfer:** Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer defnyddwyr y system llysoedd sifil, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, a phawb sydd â diddordeb yn y system llysoedd sifil.
- Hyd:** O 20/11/20 i 30/12/20
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur ar ffurf wahanol) i:** Tîm Polisi Ffioedd  
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [mojfeespolicy@Justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@Justice.gov.uk)
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 30 Rhagfyr 2020 i:  
Tîm Polisi Ffioedd  
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
E-bost: [mojfeespolicy@Justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@Justice.gov.uk)

# Cynnwys

<b>1. Yr Achos dros Alinio</b>	<b>4</b>
<b>2. Y Cynnig</b>	<b>10</b>
<b>3. Holiadur</b>	<b>13</b>
<b>4. Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg</b>	<b>15</b>
<b>Amdanoch chi</b>	<b>17</b>
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>18</b>
Cwynion neu sylwadau	18
Copiâu ychwanegol	18
Cyhoeddi'r ymateb	18
Grwpiau cynrychioladol	18
Cyfrinachedd	19
<b>Egwyddorion ymgynghori</b>	<b>20</b>

Cynnig i ddiwygio:  
Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar Bapur

# Rhagair Gweinidogol

Mae system llysoedd a thriwlynlysoedd effeithiol yn fuddiol i'r gymuned gyfan drwy sicrhau bod modd cynnal a gorfodi hawliau ac ymrwymadau'n briodol. Rwy'n falch o ddweud bod ein llysoedd a'n thriwlynlysoedd wedi darparu system gyfiawnder penigamp, y mae llawer yn ei hedmygu. Mae'r bobl y mae'n ei gwasanaethu'n ymddiried ynddynt i fod yn deg ac effeithiol a chynnal rheolaeth y gyfraith.

Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd i sicrhau bod system llysoedd effeithlon ac effeithiol ar waith. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni amddiffyn mynediad at gyfiawnder. Ers sawl blwyddyn, mae ein system llysoedd a thriwlynlysoedd wedi gweithredu ar yr egwyddor y dylai'r bobl sy'n defnyddio llysoedd a thriwlynlysoedd dalu pris llawn y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, os gallant fforddio hynny. Mae hyn yn ein galluogi hefyd i osod ffioedd eraill yn is na phris y gwasanaeth, neu beidio â chodi ffi o gwbl er mwyn helpu i sicrhau mynediad at gyfiawnder. Er gwaethaf hyn, mae'r incwm sy'n deillio o ffioedd werth llai na hanner y costau o gynnal y llysoedd a'r thriwlynlysoedd. Mae'r bwch hwn yn faich ar drethdalwyr. Yn 2019/20, roedd incwm ffioedd net o £724m, yn erbyn cost o £2bn ar gyfer rhedeg Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi.

Er na fydd y cynnig a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn cau'r bwch hwn, bydd yn gyfraniad pwysig at sicrhau bod gan ein llysoedd a thriwlynlysoedd yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu eu gwasanaethau, sydd wir eu hangen. Yn ogystal, bydd yn helpu i symleiddio'r strwythur ffioedd presennol drwy sicrhau y bydd ffioedd y gwasanaethau papur ac ar-lein yr un peth.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r targed i foderneiddio'r system llysoedd a thriwlynlysoedd. Pan gyflwynon ni'r gwasanaethau ar-lein cyntaf yn 2001, roedd gwasanaethau digidol yn bell o fod yr opsiwn awtomataidd fel ag y maen nhw heddiw. Bellach, rwy'n falch o ddweud bod ychydig o dan 90% o'r hawliadau am arian hyd at £100,000 yn cael eu cyflwyno ar-lein, sy'n adlewyrchu'r newid positif amlwg dros y 19 blynedd diwethaf.

Nod y cynnig hwn yw darparu cyllid sydd wir ei angen ar Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi, symleiddio ein strwythur ffioedd presennol a sicrhau bod y rheiny sy'n gallu talu ffi yn talu'r un ffi am yr un gwasanaeth waeth os ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth ar-lein neu ar bapur. Os yw'r Llywodraeth yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, bydd yn cael ei drafod yn y Senedd cyn cael ei roi ar waith.

**Chris Philp**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol  
(Gweinidog Cydymffurfiaeth Mewnffudo a'r Llysoedd)

# 1. Yr Achos dros Alinio

## Cyflwyniad

1. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn chwarae rhan hanfodol yn ein democratiaeth. Mae'n lle gall pobl orfodi ac amddiffyn eu hawliau, wrth gynnal rheolaeth y gyfraith a sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfiawnder. Mae pobl yn rhyngweithio gyda llysoedd a thriwlynlysoedd yn ystod rhai o adegau anoddaf eu bywydau, er enghraifft pan maent yn:
  - ddioddefwyr ac yn dystion troseddau
  - diffynyddion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau
  - cwsmeriaid mewn dyled, neu sydd ag anghydfodau eraill
  - pobl ynghlwm wrth fabwysiadu neu amddiffyn plant
  - busnesau ynghlwm wrth anghydfodau masnachol
  - unigolion yn arfer eu hawliau cyflogaeth neu'n herio penderfyniadau cyrff Llywodraethol
  - pobl sy'n cael eu heffeithio gan berthynas yn chwalu
2. Mae llysoedd a thriwlynlysoedd yn cynnig buddion sylweddol i gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, mae llysoedd sifil (yn benodol y llys sirol, yr Uchel Lys a'r Llys Apêl) yn ganolog i ddatrys anghydfodau sifil syml neu gymhleth yng Nghymru a Lloegr. Yn ehangach, mae'n bosibl y bydd llysoedd a thriwlynlysoedd yn pasio dyfarniadau fydd yn pennu egwyddorion cyfreithiol, sy'n berthnasol i bawb yn gyffredinol, ac yn fanteisiol i bawb hefyd.
3. Dyna pam mae'r ddwy egwyddor gyffredinol sy'n sail i'r system llysoedd a thriwlynlysoedd - yr angen i amddiffyn mynediad at gyfiawnder, ac i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol - yn rhan hanfodol o'n cymdeithas. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd bersonol, statudol a chyfansoddiadol i amddiffyn mynediad at gyfiawnder, a sicrhau bod pawb sydd angen mynediad at llysoedd a thriwlynlysoedd yn gallu arfer yr hawl hon. Yn yr un modd, mae ganddo hefyd ddyletswydd statudol i sicrhau y gall llysoedd a thriwlynlysoedd weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. I gyflawni'r ymrwymadau hyn, mae gan yr Arglwydd Ganghellor bŵer i osod ffioedd. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi dyletswyddau a phŵer i'r Arglwydd Ganghellor o ran gosod ffioedd wedi'i nodi ym mharagraffau 19-22.
4. Mae talu ffioedd wedi bod yn ffordd i helpu i dalu costau GLITEM ers tro, ac yn gyffredinol defnyddwyr y system llysoedd a thriwlynlysoedd sy'n talu'r ffioedd hyn.



Mae'r ffi y mae person yn ei thalu i gyflwyno hawliad yn dibynnu ar y math o gais llys sy'n cael ei gyflwyno.

5. Fodd bynnag, yn rhan o'n dyletswydd i amddiffyn mynediad at gyfiawnder, rydym wedi sefydlu cynllun talu ffioedd, Help i Dalu Ffioedd (HwF), y gall defnyddwyr ei ddefnyddio os na allent fforddio ffi. Gallent hefyd gyflwyno cais i'r cynllun hyd at 3 mis ar ôl talu'r ffi. Mae Help i Dalu Ffioedd yn ystyried sawl ffactor gan gynnwys incwm yr ymgeisydd, cynilion, swm y ffi ac os ydyw'n cael budd-daliadau penodol. Gall ymgeiswyr llwyddiannus dderbyn taliad cyfan neu rannol o'r ffi. Ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gymwys i gael Help i Dalu Ffioedd, ond sydd dal yn methu fforddio'r ffi, gellid talu'r ffi y tu allan i brif asesiad y Cynllun Help i Dalu Ffioedd mewn amgylchiadau eithriadol. Ystyrir hyn ar sail pob achos unigol gan swyddogion y llys. Nid oes modd cynnig gostyngiadau ar ffioedd a delir ar gyfer copïau o ddogfennau a chwiliadau, neu rai wedi'u dyblygu. Yn gyffredinol, nid ydynt ar gael i fusnesau.
6. Strwythur ffioedd syml a rhesymol yw'r ffordd orau o gael system gyfiawnder a ariennir yn briodol, ac i amddiffyn mynediad at gyfiawnder yn y tymor hir. Dyna pam rydym yn ceisio asesu costau'r llysoedd a thribiwnlysoedd, ac adolygu'r ffioedd y mae defnyddwyr yn eu talu. Yn 2019/20, roedd incwm ffioedd net o £724m yn erbyn y gost o redeg GLITEM, sef £2bn. Fel adrannau eraill y Llywodraeth, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfrifoldeb i leihau ei gwariant ac asesu ei chostau er mwyn cyflawni arbedion fyddai, yn y pen draw, yn lleihau baich ariannol trethdalwyr. Yn yr un modd, bydd strwythur ffioedd syml a rhesymol yn helpu defnyddwyr GLITEM i ddeall y ffioedd cysylltiedig pan fyddant yn dechrau cyflwyno hawliad.
7. Mewn ymdrech i foderneiddio GLITEM, ac felly bod yn fanteisiol i ddefnyddwyr a threthdalwyr drwy leihau rhai costau gweinyddol, mae'r Llywodraeth wedi lansio rhaglen fuddsoddi gwerth £1bn i ddiwygio'r system llysoedd a thribiwnlysoedd a diweddarau ei gweithdrefnau. Ymysg pethau eraill, rydym wedi gwneud hyn drwy ddylunio gwasanaethau ar-lein cydlynol ac effeithiol sy'n hawdd i'w defnyddio. Ar gyfer hawliadau arian sifil a hawliadau meddiannu ar-lein, rydym wedi gosod disgownt er mwyn annog defnyddwyr i gyflwyno'r hawliadau hyn ar-lein. Mae'r disgownt hwn hefyd yn adlewyrchu'n well y costau is o ran gweinyddu'r gwasanaeth ar-lein o'i gymharu â gweinyddu system hawliadau ar bapur. Felly, mae'r rhaglen foderneiddio hon wedi arwain at effeithlonrwydd eang ledled GLITEM.
8. Yn unol â dyletswyddau statudol yr Arglwydd Ganghellor a nodwyd ym mharagraff 3, ac yn unol ag ymdrechion parhaus y Llywodraeth i gyflawni effeithlonrwydd ledled GLITEM, mae bellach yn bwysig i ni adolygu'r gwahaniaeth o ran ffioedd hawliadau sifil a hawliadau meddiannu ar bapur ac ar-lein. Oherwydd rhesymau sy'n cael eu hegluro ym Mhennod Dau, mae achos cryf dros alinio'r ffioedd am achosion ar-lein gyda'r rhai papur. Wrth sicrhau cysondeb i hawlwyd ar-lein ac ar

bapur, byddai'r cynnig yn helpu i symleiddio ein strwythur ffioedd, a chyfrannu at ariannu costau GLITEM.

9. Felly, os caiff y cynnig a nodir ym Mhennod Dau ei weithredu, bydd y disgownt ar gyfer cyflwyno hawliadau sifil a meddiannu ar-lein yn cael ei ddileu. Bydd yr aliniad hwn yn cyfrannu at ariannu costau GLITEM, gan fod o gymorth ychwanegol o ran ariannu'r system gyfiawnder a lleihau baich y trethdalwr. O ystyried bod nod polisi'r disgownt ar-lein wedi'i gyflawni, ni ddylai'r rheiny na all ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein orfod talu ffi uwch am ddefnyddio'r broses ar bapur na'r rheiny sy'n cyflwyno'r un hawliad ar-lein.
10. Os caiff ei weithredu, byddai'r cynnig yn codi oddeutu £12-33m y flwyddyn o 2022/23 ymlaen. Mae Asesiad Effaith wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

## Cwmpas yr ymgynghoriad

11. Mae'r ddogfen hon yn trafod cynnig y Llywodraeth, sef testun yr ymgynghoriad, i alinio ffioedd hawliadau sifil am arian a hawliadau meddiannu ar-lein gyda'r ffioedd papur. Os caiff y cynnig ei weithredu, bydd yn gwaredu'r disgownt ar-lein oedd â'r nod o annog defnyddwyr i gyflwyno hawliadau ar-lein. Rydym yn ceisio barn ar y cynnig hwn sydd wedi'i nodi mewn mwy o fanylder ym Mhennod Dau 'Y Cynnig' (tudalen 10). Yr hawliadau sy'n berthnasol i'r cynnig hwn yw'r rheiny a gyflwynir drwy'r platfformau ar-lein canlynol: Hawliadau am Arian Ar-lein (MCOL), Hawliadau Sifil am Arian Ar-lein (OCMC), Hawliadau Meddiannu Ar-lein (PCOL) a'r rheiny a gyflwynir drwy Ganolfan Busnes y Llysoedd Sirol (CCBC).
12. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn gan ddefnyddwyr y system llysoedd sifil, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cyngor, a phawb sydd â diddordeb yn y system llysoedd sifil.

## Cefndir

13. Mae system llysoedd a thribiwnlysoedd fodern yn ein galluogi i gael awdurdodaeth sifil sy'n darparu proses syml a rhwydd i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys meddu ar systemau sy'n galluogi defnyddwyr i gyflwyno hawliad yr holl ffordd at ddatrys anghydfod mewn ffordd mor syml â phosibl. Yn rhan o'r system honno, bydd gan ddefnyddwyr gyfle i gael mynediad at wasanaeth cyfryngu.
14. Yn 2001, cyflwynodd y Llywodraeth ei phlatfform ar-lein gyntaf, MCOL, oedd yn ceisio cynnig gwasanaeth cyflawn o ran rheoli hawliadau am arian sifil. Mae'n hawdd cael mynediad at MCOL ar y rhyngwrdd ac mae'n galluogi partïon i ddechrau ac ymateb i hawliad am arian ar-lein. Mae OCMC yn blatfform mwy newydd, ac mae'n cael ei beilota ar hyn o bryd.

15. Mae OCMC yn galluogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain i gyflwyno a bwrw ymlaen â rhai hawliadau llys sirol ar-lein. Mae hefyd wedi'i ddylunio i annog y defnydd o wasanaethau cyfryngu er mwyn helpu i setlo anghydfodau. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth ar gael i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ar gyfer hawliadau gwerth llai na £10,000. Nodir sgôp y peilot, a'r hawliadau sy'n addas o dan y peilot, yng Nghyfarwyddyd Ymarfer (PD) 51R y Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR), paragraff 2.1 (3). Wrth i OCMC ddatblygu, bydd MCOL yn cael ei ddisodli'n raddol, er mwyn paratoi ar gyfer llwybr digidol newydd i hawliadau dros £10,000, fydd yn hwyluso un gwasanaeth symlach.
16. Ar hyn o bryd, mae defnyddwyr sydd am gyflwyno hawliad sifil am arian ar-lein werth mwy na £10,000 y tu allan i sgôp OCMC. Fodd bynnag, gall y defnyddwyr hyn gyflwyno hawliadau hyd at £100,000 ar MCOL, a nodir sgôp yr hawliadau hyn yn CPR PD 7E.
17. Mae'r CCBC yn ymdrin â hawliadau llysoedd sirol am swm penodol o arian a gyflwynir drwy MCOL. I ddefnyddwyr sy'n cyflwyno hawliadau am swm mawr o arian, mae'r CCBC yn darparu gwasanaeth sy'n eu galluogi i ffeilio nifer fawr o hawliadau llysoedd sirol am arian yn electronig, drwy Drosoglwyddiad Data Diogel (SDT). O ystyried nifer fawr yr hawliadau a gyflwynir drwy SDT, mae defnyddwyr o'r fath yn tueddu i fod yn sefydliadau prynu dyled, cwmnïau cyfleustodau, sefydliadau tai cymdeithasol, benthyccwyr ac awdurdodau lleol.
18. Ar gyfer hawliadau meddiannu heblaw am feddiannau cyflymedig, gall defnyddwyr gyflwyno hawliad drwy PCOL neu'r system ar bapur, sy'n cynnwys cyflwyno mewn llys lleol. Mae PCOL yn ffordd syml a diogel o gyflwyno neu ymateb i hawliadau ar-lein. Mae CPR 55 yn nodi'r math o hawliadau meddiannu sydd o dan sgôp PCOL.

## Deddfwriaeth

19. Mae ffioedd llysoedd a thriwlynlysoedd yn amodol ar ofynion cyfreithiol ac ystyriaethau polisi. Nodir y pŵer i godi ffioedd yn llysoedd sifil Cymru a Lloegr mewn sawl darn o ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddf Llysoedd 2003 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae Adran 92 Deddf Llysoedd 2003 yn rhoi pŵer unigol i'r Arglwydd Ganghellor osod ffioedd, gyda chydysyniad y Trysorlys, i osod y ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw beth y mae'r uwch lysoedd, llysoedd sirol a llysoedd ynadon yn ymdrin â nhw. Wrth osod ffioedd yn y system llysoedd sifil, mae angen i'r Arglwydd Ganghellor ystyried yr egwyddor na ddylid gwrthod mynediad at y llysoedd.
20. Mae'r Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 (CPFO) yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag achosion sifil yn yr Uchel Lys a'r llys sirol. Caiff ffioedd

ar gyfer cyflwyno hawliadau am arian eu bandio yn unol â gwerth yr hawliad. O'i gymharu â'r llwybr bapur, ar hyn o bryd mae ffioedd is ar gyfer hawliadau a gyflwynir ar-lein drwy MCOL, PCOL a CCBC. Nodir y gwahaniaeth rhwng y ffioedd ar-lein perthnasol a'r ffioedd papur ym Mhennod Dau 'Y Cynnig'. Ceir rhagor o fanylion am ffioedd cyflwyno yn ôl gwerth band yr hawliad yn **Atodiad A**.

21. Nodir y polisi cyffredinol ar ffioedd ledled y Llywodraeth yn llawlyfr 'Rheoli Arian Cyhoeddus' Trysorlys EM, a'r dull safonol o ran gosod ffioedd yw adennill pris llawn y gwasanaeth. Fel egwyddor, dylid gosod ffioedd ar lefel sy'n adennill o leiaf rhan o gost y gwasanaeth. Mae cyfran fawr o'r ffioedd yn cael eu codi ar bris y gwasanaeth, neu'n is na hynny (ffioedd nad ydynt yn rhai uwch). Caiff rhai ffioedd y llys, megis y ffioedd sy'n destun y cynnig yn y ddogfen hon, eu gosod yn uwch na phris y gwasanaeth (ffioedd uwch). Dim ond gyda chymeradwyaeth uniongyrchol seneddol y mae modd gosod ffioedd o'r fath, yn dilyn cyflwyniad 'pŵer uwch' yn Adran 180 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (y Ddeddf).
22. Mae'r pŵer a ddarperir dan Adran 180 yn nodi bod rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ystyried, cyn gosod ffi ar y lefel uwch:
  - a. sefyllfa ariannol llysoedd a thriwlynlysoedd gan gynnwys unrhyw gostau nad ydynt yn cael eu talu gan yr incwm ffioedd presennol; a
  - b. chystadleurwydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol.
23. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y ffactorau a nodir uchod. Am resymau fydd yn cael eu hegluro ym Mhennod Dau 'Y Cynnig', mae angen cyfrannu at ariannu costau GLITEM i wella sefyllfa ariannol bresennol y llysoedd a'r triwlynlysoedd. O ystyried cystadleurwydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol, nid ydym yn disgwyl i'r broses o alinio ffioedd ar-lein ac ar bapur gael effaith andwyol ar y gystadleuaeth. Dan y cynnig, bydd disgwyl i bob defnyddiwr dalu'r un ffi gyflwyno wrth ddechrau hawliad am arian. Mae'n annhebygol y bydd y ffioedd cyfunol arfaethedig a nodir yn Atodiad A yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth o fewn y sector gwasanaethau cyfreithiol. Rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith cysylltiedig ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

## Ymgynghoriadau blaenorol

24. Mae ffioedd llysoedd sifil wedi bod yn destun nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus yn y gorffennol, gan ystyried cynigion i ddiwygio a sut dylid defnyddio ffioedd i ariannu GLITEM. Mae'r polisi o annog defnyddwyr i gyflwyno hawliadau ar-lein drwy osod disgownt ar ffioedd ar waith ers tro. Mae defnyddwyr sy'n cyflwyno hawliadau swmp wedi cael disgownt ar y ffioedd cyflwyno ers 2004, mae disgownt ar hawliadau a

gyflwynir drwy PCOL ers 2006, a disgownt ar ffioedd a gyflwynir drwy MCOL ers 2007. Yn dilyn ymarferion ymgynghori blaenorol yn 2013 a 2014, rhoddodd y Llywodraeth ddisgowntiau o 10% ar ffioedd ar-lein eto yn 2015 ar gyfer hawliadau a gyflwynir ar CCBC neu MCOL. Diben y disgownt ar-lein oedd annog defnyddwyr i gyflwyno hawliadau ar-lein. Rhoddwyd hyn ar waith i adlewyrchu prisiau is gweinyddu'r gwasanaeth ar-lein, o'i gymharu â gweinyddu hawliadau ar bapur, oherwydd effeithlonrwydd gwasanaethau digidol wrth brosesu hawliadau.

## **Effaith alinio ffioedd ar-lein ac ar bapur**

25. Rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Mae'n trafod effaith y cynnig a ragwelir pe byddai'n cael ei weithredu. Ystyrir manylion pellach am effaith y cynnig ym Mhennod Tri 'Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg'.

## **Cyfnod ymgynghori**

26. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y cynnig y dylid alinio ffioedd ar-lein a phapur ar y lefel bapur uwch. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 30 Rhagfyr 2020.

## 2. Y Cynnig

### Cyflwyno ffi gyfunol

27. Ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd yw prif ffynhonnell incwm uniongyrchol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ffioedd yn cyfrannu at gyllid GLITEM, sy'n weithredol gyfrifol am weinyddu'r holl ffioedd. Oni bai y nodir yn wahanol, byddai angen i ddefnyddiwr dalu ffi am ddechrau prosesau megis cyflwyno hawliad, llenwi gwrth-hawliad, neu wneud cais i orfodi gorchymyn llys. Mae hefyd ffioedd cyffredinol am achosion sifil megis ffioedd ymgeisio a gwrandawiadau. Mae'r CPFO, fel y'i diwygiwyd, yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy yn y llysoedd sifil ac mae ar gael ar-lein yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2008/1053/introduction/made>
28. Ar hyn o bryd, mae'r CPFO yn darparu graddfa ffioedd ar gyfer cyflwyno hawliadau am arian, gyda graddfa is o ran ffioedd cyflwyno ar gyfer yr un hawliadau os cânt eu cyflwyno ar-lein drwy MCOL, neu drwy CCBC yn achos hawliadau swmp. Mae'r ffi gyflwyno sy'n daladwy'n dibynnu ar werth yr arian y gwneir hawliad amdano. Y safbwynt cyffredinol yw po fwyaf yw gwerth yr hawliad, y mwyaf yw'r ffi gyflwyno y byddai disgwyl i ddefnyddiwr ei thalu. Ar gyfer defnyddwyr sy'n cyflwyno hawliad sifil am arian hyd at £300, ar hyn o bryd byddent yn talu ffi ostyngedig o £25, ond byddai'r un broses ar bapur yn gofyn am ffi gyflwyno o £35. Ar yr un pryd, byddai angen i ddefnyddiwr sy'n cyflwyno hawliad ar-lein hyd at £10k dalu ffi gyflwyno o £410, ond byddai'r un hawliad ar bapur yn gofyn am ffi gyflwyno o £455. Ceir manylion am y ffioedd perthnasol yn **Atodiad A**.
29. At ddibenion CPFO, mae OCMC yn is-set o MCOL. Yn yr un modd, gosodir ffioedd ar gyfer dechrau achosion i adennill tir yn y llys sirol, ac am wneud cais am warant reoli, gyda ffi is yn daladwy os yw'r un hawliadau hyn yn cael eu cyflwyno drwy PCOL. Rhoddwyd disgownt ar y ffioedd ar-lein hyn i adlewyrchu pris is costau rhedeg y gwasanaethau ar-lein, ac i annog rhagor o hawliadau ar-lein.
30. Fel y'i nodwyd ym mharagraff 23, mae'r Llywodraeth wedi ystyried sefyllfa ariannol y llysoedd a thribiwnlysoedd. Ar gyfer y llysoedd sifil, roedd cyfanswm y costau gweithredu yn 2019/20 yn £545 miliwn, ac roedd yr incwm a gasglwyd gan y llysoedd sifil yn £550 miliwn unwaith yr ystyriwyd dileadau. I sicrhau bod y llysoedd yn cael eu hariannu'n gywir ac yn gynaliadwy dros amser, mae'r ffioedd sy'n daladwy gan ddefnyddwyr y gwasanaeth wedi cael eu cynyddu yn y gorffennol. Cafodd y ffioedd eu cynyddu ddiwethaf yn 2014 a 2015. Mae'r incwm a godir gan ffioedd yn y pen draw yn lleihau cymhorthdal trethdalwyr sydd ei angen i ariannu GLITEM, ac sy'n ein galluogi i draws-gymorthdal rhannau eraill o'r system llysoedd a thribiwnlysoedd. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid yw'r Llywodraeth yn codi tâl am

orchmynion amddiffyn cam-drin domestig a gorchmynion rhag molestu, nac ychwaith am achosion yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf ynghylch iechyd meddwl. Mae'n iawn defnyddio ffioedd sy'n daladwy ar gyfer un gwasanaeth fel cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau tebyg eraill.

## Crynodeb o'r Cynnig

31. Rydym yn cynnig diddymu'r disgownt ar-lein ar ffioedd defnyddwyr CCBC, MCOL, PCOL ac OCMC, er mwyn eu halinio â'r ffioedd papur sy'n daladwy ar hyn o bryd yn y CPFO. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn destun offeryn statudol cadarnhaol fydd yn diwygio'r gorchymyn ffioedd er mwyn sicrhau un ffi gyfunol ar gyfer hawliadau a gyflwynir ar bapur ac ar-lein. Ar hyn o bryd, y bwriad yw bydd y cynigion hyn yn weithredol o fis Mai 2021.
32. Gan mai ffioedd yw prif ffynhonnell incwm uniongyrchol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n bwysig eu hystyried er mwyn bodloni dyletswydd statudol yr Arglwydd Ganghellor i sicrhau system llysoedd effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd bersonol, statudol a chyfansoddiadol i amddiffyn mynediad at gyfiawnder. Nid yw'r incwm a godir gan ffioedd yn talu costau rhedeg llawn GLITEM ar hyn o bryd.
33. Yn 2019/20, roedd cyfanswm gwerth costau ffioedd oddeutu £817m. O hyn, diddymwyd £93m (oherwydd cynlluniau gostyngiadau megis Help i Dalu Ffioedd), gan arwain at incwm ffioedd net o £724m yn erbyn £2bn, sef costau gweithredu GLITEM. Dan y cynnig, bydd y £12-33m y flwyddyn a ragwelir o 2022/23 ymlaen yn helpu, os caiff ei weithredu, i gyfrannu at ariannu costau GLITEM, nad yw incwm ffioedd yn ddigon i'w talu ar hyn o bryd. Yn ogystal, bydd y cyllid a ragwelir yn sgil yr alinio hefyd yn helpu i gyflawni arbedion ledled y system llysoedd a thribiwnlysoedd, ac yn ein galluogi i barhau i roi cymhorthdal yn y meysydd nad oes ffi yn daladwy ar eu cyfer.
34. Gellid cyfiawnhau dileu'r disgownt ar-lein gan fod gwasanaethau digidol, pan maent ar gael, wedi dod yn opsiwn awtomatig i'r rhan fwyaf o bobl wrth geisio defnyddio gwasanaeth, gan gynrychioli ychydig o dan 90% o'r hawliadau am arian hyd at £100,000. Yn seiliedig ar hyn, mae'r syniad oedd y tu ôl i'r disgownt ar-lein wedi'i gyflawni. Bydd mynediad at gyfiawnder yn dal i gael ei amddiffyn hyd yn oed drwy alinio ffioedd ar-lein a phapur. Gall y rheiny sy'n teimlo na allent fforddio talu ffi wneud cais i'n cynllun talu ffioedd, Help i Dalu Ffioedd, sydd ond ar gael i unigolion ar hyn o bryd, nid cwmnïau (gydag ychydig o eithriadau), ac nid yw ar gael i ddefnyddwyr pob plattform ar-lein, megis MCOL.

35. Bydd alinio'r ffioedd hyn yn helpu i symleiddio a rhesymoli'r strwythur ffioedd sifil presennol, oherwydd bydd pob defnyddiwr yn talu'r un ffi gyfunol, waeth os ydynt yn cyflwyno hawliad ar-lein neu ar bapur. Bydd symleiddio'r strwythurau ffioedd yn helpu o ran gweinyddu'r ffioedd, ac yn lleihau'r risg o gamgymeriadau ac oedi, gan alluogi defnyddwyr i ddeall y ffioedd cysylltiedig cyn dechrau hawliad. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb gyda rhaglenni tebyg megis y peilot Llysoedd Sirol Ar-lein, sydd ar hyn o bryd yn codi'r un ffi am hawliadau ar bapur ac ar-lein. Bydd alinio hefyd yn datrys y broblem o unigolion nad ydynt o bosibl yn gallu defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn gorfod talu'r ffi uwch i gyflwyno ar bapur, o'u cymharu â'r bobl sy'n cyflwyno'r un hawliad ar-lein.
36. Mae OCMC yn wasanaeth sy'n sylweddol well o ran pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio, ei gyflymder a'r mesurau diogelwch sydd ar waith er mwyn atal defnyddwyr rhag cyflwyno ffurflenni anghywir, a all arwain at oedi gyda'r prosesau. Mae adborth blaenorol gan randdeiliaid i GLITEM wedi nodi cyfraddau boddhad uchel iawn, yn enwedig o ran OCMC, gyda defnyddwyr yn ffafrio'r gwasanaeth ar-lein gan ei fod mor hawdd i'w ddefnyddio. Bydd y nodweddion hyn yn parhau i annog defnyddio'r llwybr ar-lein. Ceir rhagor o fanylion ar y galw, ymatebion a'n hasesiad o hyn yn yr Asesiad Effaith cysylltiedig.
37. Rydym wedi nodi'n fanwl y ffioedd yr effeithir arnynt, a byddwn yn ddiolchgar i gael eich barn ar y cwestiynau canlynol a nodir ym Mhennod Tri 'Holiadur'.



### 3. Holiadur

38. I grynhoi, byddem yn falch o gael eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori hwn. Ceir rhestr o'r ffioedd yr effeithir arnynt, a'u gwerth newydd arfaethedig, yn Atodiad A.

- **Cwestiwn 1:** Yn sgil ein cynnig fel y'i nodwyd ym Mhennod Dau, ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai ffioedd cyflwyno ar-lein ac ar bapur fod yr un peth? Rhowch resymau dros eich ateb.

39. O ran ffioedd cyflwyno, mae CPFO yn gosod y ffioedd cyflwyno ar gyfer hawliadau am arian, sydd ar hyn o bryd yn cael eu bandio yn unol â gwerth yr hawliad. Mae'r ffioedd ar gyfer hawliadau a gyflwynir ar-lein drwy MCOL a CCBC yn rhatach na'r opsiwn ar bapur. Ein cynnig yw y dylid codi ffioedd cyflwyno ar-lein fel eu bod yr un peth â'r ffioedd cyflwyno ar bapur, er mwyn cael un ffi safonol ar gyfer hawliadau ar bapur ac ar-lein. Byddai'r aliniad hyn hefyd yn berthnasol i ddefnyddwyr OCMC, a byddai'n dal i fod yn berthnasol i ddefnyddwyr Llys Sirol Ar-lein.

- **Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno y dylid alinio ffioedd cyflwyno gostyngol ar-lein MCOL ac OCMC gyda'r ffioedd cyflwyno ar bapur? Rhowch resymau dros eich ateb.

40. Mewn perthynas ag Adennill Tir, mae'r CPFO yn galluogi defnyddwyr PCOL i dalu ffi o £325 am orchymyn meddiannu safonol, o'i gymharu â'r ffi ar bapur, sy'n £355. Ein cynnig yw y dylid cynyddu'r ffi PCOL o £325 er mwyn ei alinio â'r ffi bapur, sef £355.

- **Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno y dylid alinio'r ffi ar-lein ostyngol i ddefnyddwyr PCOL â'r ffi gyfatebol ar bapur? Rhowch resymau dros eich ateb.

41. Mewn perthynas â Gwarant Reoli, ar gyfer ceisiadau ynghylch gorfodi dyfarniad, gorchymyn Llys Sirol neu warant reoli yn erbyn nwyddau (heblaw am warant er mwyn gorfodi talu dirwy), mae ffi 8.1(a) CPFO yn galluogi defnyddwyr MCOL a CCBC i dalu ffi ratach o £77, o'i gymharu â £110, sef y ffi ar bapur. Ein cynnig yw y dylid cynyddu'r ffi ar-lein o £77 i £110.

- **Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno y dylid alinio'r ffi ar-lein ostyngol ar gyfer gwarant reoli â'r ffi ar bapur? Rhowch resymau dros eich ateb.

42. Cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad ar gyfer y cwestiwn canlynol.

- **Cwestiwn 5:** Yn rhan o'n hasesiad o'r ymateb posibl o'r galw, byddem yn ddiolchgar o gael adborth gan ymgynghoreion ar bwysigrwydd perthynol ffactorau gwahanol wrth benderfynu a ddylid mynd ag achos i'r llys. Gall y ffactorau hyn gynnwys ffi'r llys, costau cysylltiedig eraill, tebygolrwydd llwyddiant, tebygolrwydd adennill unrhyw ddyledion, ac unrhyw gymhellion nad ydynt yn rhai ariannol megis profiad blaenorol o brosesau llys.

43. Cyfeiriwch at yr asesiad cydraddoldeb a nodir isod ar gyfer y cwestiwn canlynol.

- **Cwestiwn 6:** Ydych chi'n ystyried a fydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig? Oes unrhyw addasiadau y dylem eu hystyried i leddfu'r effaith hon? Rhowch resymau dros eich ateb

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

## 4. Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

### Asesiad Effaith

Mae Asesiad Effaith ffurfiol wedi'i baratoi ar gyfer y cynnig hwn, ac wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Un o'r prif dybiaethau y tu ôl i'r cynnig yw y bydd diddymu'r disgownt ar-lein ar gyfer hawliadau sifil am arian a meddiannu ar-lein o bosibl yn cynhyrchu £12-33m o incwm y flwyddyn i gyfrannu at ariannu costau GLITEM o 2022/23 ymlaen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

### Cydraddoldeb

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae angen i'r Llywodraeth, fel rhan o ddatblygu polisiau, ystyried effaith ein cynnig ar gydraddoldeb. Yn fras, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n destun y ddyletswydd gydraddoldeb ystyried yr hyn a ganlyn wrth eu gwaith:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, a'r rhai sydd ddim;
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai sydd ddim.

At ddibenion y datganiad effaith ar gydraddoldeb, y nodweddion gwarchoddedig perthnasol dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw: hil; rhyw; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd a chred; oed; priodas a phartneriaeth sifil; aillbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth.

Rhoddwyd ystyriaeth i effaith cynigion y papur ymgynghori hwn ar ymrwymadau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r diwygiadau'n benodol berthnasol i bob defnyddiwr llysydd am gyflwyno hawliad sifil am arian neu hawliad meddiannu ar-lein. Yr asesiad yw bod modd cyfiawnhau dileu'r disgownt ar-lein, dan y dybiaeth mai ar-lein yw'r opsiwn awtomataidd bellach, ac nad oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol ar grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig yn sgil y diwygiad. Pe byddai tystiolaeth o wahaniaethu yn dod i'r amlwg, byddem yn ystyried effaith gwahaniaethu o'r fath yn erbyn amcanion bwriedig y diwygiadau, ac yn ystyried y posibilrwydd o'i addasu er mwyn lleddfu'r effaith hon.

## **Datganiad cydraddoldeb**

Bydd y cynnig yn effeithio ar ddefnyddwyr llys sydd am gyflwyno naill ai hawliad sifil am arian ar-lein, neu hawliad meddiannu ar-lein. Dan y cynnig, bydd y disgownt ar-lein sy'n berthnasol i'r hawliadau hyn yn cael ei ddiddymu, a thbyr mai platfformau ar-lein yw'r opsiwn awtomataidd bellach i ddefnyddwyr sydd am gyflwyno hawliadau o'r fath. O'r herwydd, nid oes cyfiawnhad rhesymol er mwyn ceisio cymell defnyddwyr i gyflwyno hawliadau ar-lein.

Dan y cynnig, bydd defnyddwyr y platfformau ar-lein: OCMC, MCOL, PCOL a'r CCBC a'i system gyfatebol ar bapur yn talu'r un ffi llys gyfunol.

Ni fydd y cynigion yn arwain at bobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchoddedig, ac felly ein hasesiad yw nad yw'r cynigion yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn unol ag ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd, nid ydym yn credu y bydd y cynnig hwn yn arwain at wahaniaethu anuniongyrchol dan ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

Nid ydym yn credu y bydd y newid arfaethedig yn rhoi cyfleoedd sylweddol i wella cyfle cyfartal.

Ceir fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon yn:

<https://www.gov.uk/government/consultations/alignment-of-the-fees-for-online-and-paper-civil-money-and-possession-claims>

# Amdanoch chi

Defnyddiwch y rhan hon i ddweud wrthym amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu yma gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech i ni roi gwybod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon gohebiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn gynrychiolydd grŵp**, dywedwch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

---

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 30 Rhagfyr 2020 at:

## **Polisi Ffioedd**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Legal Support and Fees Policy

Access to Justice

10.16-10.18, 10th Floor

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

**E-bost:** Polisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder [mojfeespolicy@Justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@Justice.gov.uk)

## **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyfeiriad uchod.

## **Copïau ychwanegol**

Gallwch gael copïau papur o'r ymgynghoriad hwn gan y cyfeiriad uchod, ac mae hefyd ar gael ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gallwch wneud cais am fersiynau fformat amgen o'r cyhoeddiad hwn drwy e-bostio Polisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar [mojfeespolicy@Justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@Justice.gov.uk)

## **Cyhoeddi'r ymateb**

Bydd papur yn crynhoi ymatebion yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## **Grwpiau cynrychioladol**

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r gweithdrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, sylwch, dan FOIA, mae Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac sy'n delio gydag ymrwymadau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. Yn sgil hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro pam fod angen trin y wybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cynnal cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd y Weinyddiaeth yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomataidd a gynhychir gan eich system TG yn orfodol.

Os nad ydych yn awyddus i'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol fod yn gyhoeddus, fe'ch cynghorir i ymateb yn ddiennw (er enghraifft 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd').

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA, ac yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei rannu â thrydydd partïon.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Siarter Gwybodaeth Bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Egwyddorion ymgynghori

Nodir yr egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu polisiau a deddfwriaeth yn nogfen Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf)



## Atodiad A: Y Ffioedd yr Effeithir Arnynt

Mae'r tablau isod yn rhoi manylion am y ffioedd yr effeithir arnynt, a'u rhifau perthnasol, fel y'i nodir yn y Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil (CPFO).

### **Ffioedd Cyflwyno**

Mae Ffi 1.1 CPFO yn trafod ffioedd papur, ac mae ffi 1.2 yn ymwneud ag achosion yng Nghanolfan Fusnes Llysoedd Sirol (CCBC) a gyflwynir gan ddefnyddwyr y Ganolfan neu achosion a gyflwynir gan ddefnyddwyr Hawliadau am Arian Ar-lein (MCOL) er mwyn adennill swm o arian.

Caiff ffioedd 1.1 a 1.2 eu bandio yn unol â gwerth yr hawliad.

Rhif y Ffi (CPFO)	Gwerth yr Hawliad	Ffi Ffurflen Bapur	Ffi Hawliad Ar-lein	Ffi Arfaethedig
1.1(a) a 1.2(a)	Hyd at £300	£35	£25	£35
1.1(b) a 1.2(b)	£300.01 i £500	£50	£35	£50
1.1(c) a 1.2(c)	£500.01 i £1,000	£70	£60	£70
1.1(d) a 1.2(d)	£1,000.01 i £1,500	£80	£70	£80
1.1(e) a 1.2(e)	£1,500.01 i £3,000	£115	£105	£115
1.1(f) a 1.2(f)	3,000.01 i £5,000	£205	£185	£205
1.1(g) a 1.2(g)	£5,000.01 i £10,000	£455	£410	£455
1.1(h) a 1.2(h)	£10,000.01 i £100,000*	5% o'r hawliad	4.5% o'r hawliad	5% o'r hawliad

\*Mae Ffi 1.1(h) yn berthnasol i hawliadau sy'n fwy na £10,000 ond heb fod yn fwy na £200,000.

### **Adennill Tir**

<b>Rhif y Ffi</b>	<b>Disgrifiad o'r Ffi</b>	<b>Ffi ar Bapur</b>	<b>Ffi Ar-lein (PCOL)</b>	<b>Ffi Arfaethedig</b>
1.4	Ar ddechrau achosion ar gyfer adennill tir: (a) yn yr Uchel Lys* (b) yn y Llys Sirol, oni bai os yw ffi 1.4(c) yn berthnasol; (c) gan ddefnyddio'r wefan Hawliadau Meddiannu Ar-lein (PCOL).	£355	£325	£355

\*Nid yw Ffi 1.4(a) yn cael ei heffeithio gan ein cynigion

### **Gwarant Reoli**

<b>Rhif y Ffi</b>	<b>Disgrifiad o'r Ffi</b>	<b>Ffi ar Bapur</b>	<b>Ffi Ar-lein (achosion CCBC a MCOL)</b>	<b>Ffi Arfaethedig</b>
8.1	Ar gais ar gyfer, neu mewn perthynas â gorfodi dyfarniad neu orchymyn y Llys Sirol neu drwy'r Llys Sirol, drwy gyflwyno gwarant reoli yn erbyn nwyddau oni bai am warant i orfodi talu dirwy: (a) mewn achosion CCBC, neu achosion ble gwneir cais am warant reoli yn unol â pharagraff 11.2 Cyfarwyddyd Ymarfer 7E y Rheolau Trefniadaeth Sifil (achosion Hawliadau am Arian Ar-lein); (b) mewn unrhyw achos arall.	£110	£77	£110





© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth f3.0 oni bai y nodir fel arall. I weld y drwydded, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi cydnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Os hoffech gael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill, gwnewch gais i Polisi Ffioedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar: [mojfeespolicy@Justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@Justice.gov.uk)